



**Cyfrifiadureg**

**Llawlyfr Myfyrwyr**

**Rhaglenni Israddedig**

**2021/22**

## Contents

Datganiad Covid 19 Prifysgol.....	5
Datganiad Covid 19 Cyfrifiadureg .....	5
Croeso .....	5
Adran A: Cyflwyniad.....	8
Diben y llawlyfr.....	8
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb .....	9
Dyddiadau Pwysig .....	10
Adran B: Gwybodaeth am yr Adran .....	11
Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr.....	11
Presenoldeb a Chynnydd Academaidd.....	12
Cwrdd â'r staff.....	13
Tiwtoriaid Personol .....	134
Cynllun Canllaw Cymheiriaid .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b> 6
Coleg Cymraeg Cenedlaethol.....	16
Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg.....	177
Cyflwyno Asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg .....	17
Cyflogadwyedd .....	18
Cyfleoedd i Astudio neu i Weithio Dramor .....	19
Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr.....	20
Holiaduron Gwerthuso Modiwl .....	21
Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif .....	21
Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr.....	22
Adran C: Cofrestru a'ch Rhaglen .....	22
Cofrestru .....	22
Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrwyr .....	23
Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni .....	23

Gwybodaeth ynghylch modiwlau .....	24
Amserlen Academaidd.....	24
Adran D: Asesu ac Adborth .....	25
AberLearn Blackboard / Adnoddau E-Ddysgu .....	25
Adnoddau Cyfrifiadur .....	25
Sgiliau Aber/Aber Skills.....	27
Dulliau Asesu.....	27
Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau .....	28
Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau .....	30
Dyddiadau Cau .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Absenoldeb o Arholiadau.....	31
Ceisiadau am Estyniad .....	31
Amgylchiadau Arbennig .....	31
Trefniadau Marcio a Chymedroli.....	32
Meini Prawf Marcio .....	33
Adborth .....	35
Arholwyr Allanol .....	37
Ymddygiad Academaidd Annerbyniol .....	37
Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau.....	40
Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau .....	40
Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith .....	41
Ailsefyll.....	41
Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs .....	42
Y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrywyr.....	43
Adran F: Cymorth Myfyrywyr a Gwasanaethau Lles.....	43
Canolfan Croesawu Myfyrywyr .....	43

Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian.....	43
Y Gwasanaeth Hygyrchedd .....	44
Gwasanaethau Lles Myfyrwyr .....	44
Cymorth Dysgu i Fyfrwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg .....	45
Y Swyddfa Ryngwladol .....	45
Cyngor ar Fisas a Mewnfudo .....	45
Gwibdeithiau'r Swyddfa Ryngwladol .....	45
Wythnos Un Byd .....	46
Darpariaeth Halal.....	46
Mannau aml-ffydd ac ystafell weddio.....	46
Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr.....	46
Cymorth Llety.....	47
Cynorthwywyr Preswyl.....	47
Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol .....	47

## Ymwadiad

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd (Rhan A: Polisiâu a Gweithdrefnau a Rhan B: Rheoliadau ) <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook>. Rhoddir blaenoriaeth i'r cyhoeddiadau hyn ymhob achos, ac nid oes unrhyw ran o'r llawlyfr hwn yn eu disodli. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y llawlyfr hwn yn gywir ac yn gyfredol. Er hynny, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i addasu neu ddiweddarau'r llawlyfr yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau, ond mewn achos o'r fath fe gewch wybod amdanynt gan eich adran academaidd.

## **Datganiad Covid 19 Prifysgol**

### Addasiadau oherwydd Covid-19

Adeg paratoi'r llawlyfr hwn, y dybiaeth yw y caniateir addysgu wyneb yn wyneb ar ryw ffurf yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Fodd bynnag, oherwydd natur barhaus y pandemig, , mae'n bosib y bydd yn rhaid i Aberystwyth, fel pob prifysgol arall, gynllunio ar gyfer addasiadau i'w threfn o addysgu ac i gyfleusterau ar y campws ac adnoddau dysgu yn ystod 2021-22,. At hynny, bydd angen cynlluniau wrth gefn ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd posib a allai godi wrth i'r sefyllfa newid. Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i warchod profiad y myfyrwyr ac, yn wir, i'w wella pan fydd technoleg neu wahanol dulliau dysgu yn caniatáu hynny. Byddwn hefyd yn ymatebol i adborth myfyrwyr, yn cadw ein haddysg dan arolwg ac yn gwneud mwy o newidiadau lle bo angen er mwyn gwarchod profiad y myfyrwyr a'r safonau academiaidd.

### **Datganiad Covid 19 Cyfrifiadureg**

Ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth fel sefydliad, mae'r Adran Gyfrifiadureg wedi gwneud nifer o newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn gweithredu er mwyn addasu i'r sefyllfa bresennol. Ein blaenoriaeth yw cadw pawb mor ddiogel â phosib a chyflwyno'r profiad myfyriwr gorau posib wrth wneud hynny. Byddwn yn cyflwyno'r gwaith trwy gyfuno addysgu ar-lein ac addysgu wyneb-yn-wyneb, gan ddefnyddio gwahanol offer (Discord, Microsoft Teams a Blackboard yn bennaf) i ddarparu mynediad at yr holl ddeunyddiau dysgu lle nad yw'n bosib inni ddysgu wyneb-yn-wyneb. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth a'r mewnbwn gan gynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n bresennol yn y cyfarfodydd Panel Pwnc lle rydym yn asesu'r sefyllfa ac yn trafod newidiadau i fodiwlau, cynlluniau a'r dulliau addysgu. Mae llawer ohono'n newydd i bob un ohonom a bydd barn y myfyrwyr yn hanfodol i sicrhau ein bod yn ei gael yn iawn. Gofynnwn i'r myfyrwyr roi adborth i ni, rhwng wybod beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio cystal, a helpwch ni i ganfod ffyrdd o wella gyda'n gilydd.

Mae gan bob myfyriwr yn yr adran diwtor personol o blith y staff academiaidd ac mi fydd hi'n bwysicach nag erioed i'r myfyrwyr a'u tiwtoriaid gadw mewn cysylltiad. Da chi, gwnewch yn sicr eich bod yn ymateb i negeseuon oddi wrth eich tiwtor personol a

chofiwch gysylltu â'ch tiwtor personol i ofyn cwestiynau, neu i godi pryderon neu broblemau.

## **Croeso**

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'r Adran Gyfrifiadureg. Hoffwn bwysleisio eich bod bellach yn aelod o'r adran hon. Mae'r adran yn perthyn i Gyfadran, ynghyd â'r Adrannau Mathemateg, Ffiseg, Astudiaethau Gwybodaeth, ac Ysgol Fusnes Aberystwyth. Rydym yn rhannu rhai adnoddau ond mae eich cartref yn amlwg o fewn ein hadran ni.

Hyderaf y byddwch yn llwyddo yn y cwrs gradd rydych wedi'i ddewis ac y byddwch hefyd yn mwynhau eich cyfnod yn y rhan arbennig hon o'r byd! Mae ein graddau yn eich herio'n ddeallusol a disgwylir ymroddiad a gwaith caled er mwyn llwyddo. Dyma un o'r rhesymau y mae ein graddedigion yn cael eu parchu'n fawr a'u dewis gan gyflogwyr.

Dysgir Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Aberystwyth ers 1970 ac rydym, felly yn un o'r Adrannau Cyfrifiadureg cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Roedden ni dathlu hanner canrif o Gyfrifiadureg yn Aberystwyth yn 2020. Roedd yr hyn a ddysgwyd pan sefydlwyd yr adran yn wahanol iawn i'r hyn a ddysgir heddiw. Ond er bod technoleg yn parhau i ddatblygu, yr un yw'r egwyddorion sylfaenol: dylai meddalwedd a systemau gyflawni eu gwaith yn gywir, dylent fod yn ddefnyddiadwy, yn effeithiol ac yn hawdd i'w cynnal. Mae Cyfrifiadureg yn bwnc sy'n symud yn gyflym, a'n nod yw meithrin sgiliau ynoch a fydd o gymorth am flynyddoedd ar ôl ichi raddio, megis y gallu a'r hyder i ddysgu ieithoedd rhaglennu newydd a phlatfformau technoleg, i gyfathrebu'n effeithiol a gweithio mewn timau ac i feddwl yn rhesymegol a datrys problemau.

Mae dysgu yn broses weithredol. Yr adran sy'n arwain y broses ddysgu ac sy'n darparu'r adnoddau angenrheidiol, ond eich gwaith chi fydd gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddarperir. Yr adnodd pwysicaf a ddarparwn yw'r staff darlithio, gan fod pob un ohonynt un ai'n ymchwilyr gweithredol yn eu maes arbenigol, neu wedi arbenigo yn addysg gyfrifiadureg. Gallwch elwa'n bennaf trwy fynychu'r dosbarthiadau, gwranddo, holi cwestiynau ac ymroi i'ch astudiaethau.

Ein dymuniad ni yw gweld pob un o'n myfyrwyr yn llwyddo ac yn cael profiad gwyb ond, wrth reswm, nid ydym yn cael pob dim yn gywir bob amser. Allwn ni ddim datrys problemau nad ydym yn gwybod amdany'n nhw, felly os oes problemau, neu os ydych yn teimlo y gallem wneud rhai pethau'n well, rhowch wybod inni ac fe wnawn ein gorau glas i wella. Mae pob croeso i chi gysylltu ag aelod o staff yn uniongyrchol os oes

problem. Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, mynnwch air â'ch tiwtor personol.

Mwynhewch bob eiliad o'r profiad o feistroli cyfrifiadureg sy'n cyfrif yn yr 21fed ganrif.

Dr Thomas Jansen (**Pennaeth yr Adran Gyfrifiadureg**)

## Adran A: Cyflwyniad

### Diben y llawlyfr

Diben y llawlyfr hwn yw rhoi gwybodaeth allweddol i chi am eich astudiaethau, ac am bolisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol. Nid canllaw cynhwysfawr mohono, ond bydd yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth hanfodol y bydd ei hangen arnoch i gael gyrfa academaidd lwyddiannus a difyr yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae rhagor o wybodaeth i gyd-fynd â'r llawlyfr hwn ar gael ar wefan y Brifysgol:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student/>.

Mae ein Siarter Myfyrwyr yn amlinellu ein cyd-gyfrifoldebau a'n dyheadau. Mae ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/> .

Cyhoeddir llawlyfr newydd i'r myfyrwyr bob blwyddyn academaidd sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Os hoffech wneud sylwadau am gynnwys y llawlyfr, neu ynglŷn â sut i wella'r wybodaeth a ddarperir, mae croeso i chi eu hanfon drwy ebost i'ch adran academaidd. Defnyddir y term cyffredinol 'adran academaidd' trwy gydol y llawlyfr hwn, ond mae'n bosibl y bydd 'adran', 'athrofa' neu 'ysgol' yn cael ei ddefnyddio fel teitl ffurfiol ar gyfer adran.

Mae hefyd croeso i chi fynd i Swyddfa Gyffredinol yr Adran Gyfrifiadureg ar lawr gwaelod yr Adeilad Llandinam, neu anfonwch e-bost at [cs-exam-advice@aber.ac.uk](mailto:cs-exam-advice@aber.ac.uk), os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes unrhyw gwestiynau gennych ynglŷn â materion adrannol sy'n ymddangos yn y llawlyfr.

Dylai myfyrwyr gofio y bydd Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol mewn grym bob amser, boed yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/>



## Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwmo i ddatblygu a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob agwedd ar ein hymarfer a'n gweithgareddau. Ein nod yw gweithio, astudio, a darparu diwylliant cynhwysol heb wahaniaethu, ac arddel gwerthoedd parch, urddas a chwarteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym yn ymroddedig i hybu cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, hil, hunaniaeth ryweddol, crefydd a chred (gan gynnwys anghrediniaeth), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ac i groesawu aml-hunaniaeth a chodi ymwybyddiaeth ar draws gwahanol grwpiau.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb 2020 -2024 yn hyrwyddo cydraddoldeb a gwelliannau cydraddoldeb o fewn y Brifysgol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cynllun yn cael ei fesur trwy Adroddiadau Cynnydd a byddant ar gael yn ein adroddiadau monitro blynyddol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024 (a'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb sy'n perthyn iddo) ar gael yn adran Cynlluniau ein tudalennau gwe Cydraddoldeb: <https://www.aber.ac.uk/cy/equality>

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, ycyfeiriad ebost yw [egustaff@aber.ac.uk](mailto:egustaff@aber.ac.uk)

Mae'r Adran Gyfrifiadureg yn cymryd rhan mewn nifer fawr o weithgareddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig yng nghyd-destun rhywedd. Mae Tîm Hunanasesu Athena SWAN yr adran wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers 2015 i weithio tuag at wella diwylliant yr adran i'w holl aelodau. Ym mis Hydref 2018 cawsom wobwr Efydd Athena SWAN i gydnabod ein hymrwymiad cryf i hyrwyddo gyrfaedd menywod yn y ddisgyblaeth. Gweler <https://www.ecu.ac.uk/equality-charters/athena-swan> i gael rhagor o wybodaeth am Athena SWAN yn gyffredinol.

Mae gennym rwydwaith o staff a myfyrwyr sy'n fenywod, sy'n cynnal rhestr bostio, grŵp Facebook ac yn trefnu achlysuron cymdeithasol rheolaidd i fenywod yn unig yn ogystal â digwyddiadau HeForShe yn ystod y semester. Mae staff yn yr adran yn rhedeg y Colocwim BCS Lovelace blynyddol, cynhadledd undydd genedlaethol i israddedigion

cyfrifiadureg sy'n fenywod, a'r cwrs Code First: Girls i ddysgu cyfrifiadura i fyfyrwyr nad ydynt yn astudio Cyfrifiadureg.

Mae proses Athena SWAN wedi dylanwadu ar nifer o bolisiau o fewn yr adran. Er enghraifft, lle bo modd, rydym yn trefnu rhoi menyw yn diwtor personol i fyfyrwraig ac yn sicrhau bod o leiaf tri aelod o'r rhyw leiafrifol ym mhob tiwtorial a gweithdy grŵp bach.

Rydym yn gwahodd cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr (yn ddynion ac yn fenywod fel ei gilydd) ar dîm Athena SWAN o fewn yr adran fel y gallwn edrych ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth o safbwynt staff a myfyrwyr o unrhyw rywedd.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch ag arweinydd Athena SWAN yr adran: Christine Zarges, [chz8@aber.ac.uk](mailto:chz8@aber.ac.uk).

Os oes gennych bryderon neu gwestiwn am unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, gallwch hefyd gysylltu â'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth adrannol: Angharad Shaw, [ais@aber.ac.uk](mailto:ais@aber.ac.uk).

Mae rhagor o wybodaeth a newyddion i'w cael ar wefan yr adran:

<https://www.aber.ac.uk/cy/cs/equality-and-diversity/>

## Dyddiadau Pwysig

Mae blwyddyn academaidd y Brifysgol yn dechrau ym mis Medi. Fe'i trefnir yn ddau semester, sy'n dod i ben ym misoedd Ionawr a Mehefin, a chaiff y rhan fwyaf o'r modiwlau eu hasesu ar ddiwedd pob semester. Mae tri thymor yn ogystal, gyda chyfnodau o wyliau dros y Nadolig a'r Pasg. **Mae'n rhaid i bob myfyriwr llawn amser fod yn bresennol yn Aberystwyth yn ystod y tymor oni bai bod ganddynt ganiatâd i astudio o gartref. Gweler Gwybodaeth am geisiadau I astudio o gartref yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/study-from-home/>.** Cyhoeddir dyddiadau tymor, yn cynnwys cyfnodau arholiadau yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/dates-of-term>

## Adran B: Gwybodaeth am yr Adran

### Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr

Mae'r cyfathrebu swyddogol rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr yn digwydd drwy ebost Prifysgol Aberystwyth. Os nad ydych eto wedi rhoi eich cyfrif ebost Aber ar waith, gwnewch hynny nawr drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar-lein:

<https://myaccount.aber.ac.uk/cy/open/activate/> .

Mae cyfathrebu rhwng yr Adran/Gyfadran a chi'ch hun yn bwysig iawn. Efallai bydd yr Adran yn eich hysbysu chi o ddarlithoedd, arholiadau, lles ac yn y blaen. Mae anfon e-bost ydy'r prif ffordd o gyfleu'r wybodaeth honno. Rydyn ni'n disgwyl i chi edrych ar eich e-bostiau yn ddyddiol. Awgrymir eich bod yn gwneud hyn ddwywaith pob dydd, unwaith yn y bore ac unwaith ar ddiwedd y diwrnod. Mae'n bosibl i chi gysylltu Smartphones â system e-bost y Brifysgol (gweler E-bost ar Ffon Symudol ar <https://fags.aber.ac.uk/>). Gall lythyrau pwysig gael eu hanfon at eich cyfeiriad tŷ hefyd. Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod yr holl gyfeiriadau ar eich cyfrif myfyrwyr yn cywir, ac mae rhaid i chi roi wybod i'r Brifysgol o unrhyw newidiadau. Hefyd, byddwch yn ymwybodol or ffaith bod rhai gyfatebiaeth yn cael ei rhoi yn y tyllau colomen ar lawr gwaelod Adeilad Llandinam.

Os ydych chi eisiau i gysylltu ag aelod o staff, mae anfon e-bost ydy'r ffordd gorau o wneud hyn. Mae'r mwyafrif o'r staff ar gael yn eu swyddfeydd nhw yn ystod oriau gweithio, felly mae'n bosibl i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Sut bynnag, mae aelodau o staff yn brysur felly cofiwch i baratoi cyn i chi ddod i ymweld â nhw yn eu swyddfa. Dewch a'ch gwaith a'ch nodiadau os oes angen help arnoch i ddeall y gwaith.

Mae croeso i chi hefyd ddod i'r Swyddfa Gyffredinol Gyfrifiadureg ar lawr gwaelod yr Adeilad Llandinam. Dewch i'r swyddfa os gwelwch yn dda os oes angen cymorth arnoch. Bydd y staff yn gallu rhoi help i chi. Mae cymorth ar gael yn y cyfrwng Cymraeg hefyd. Mae sawl ffurflenni a gwybodaeth ar gael ar y stondinau a'r byrddau ger y swyddfa.

Mae hysbysfyrdau yng nghoridor hir y llawr gwaelod. Maent yn hysbysu gwybodaeth benodol y Brifysgol, yr Gyfadran a'r Adran i fyfyrwyr, ac hefyd gwybodaeth gyffredinol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth a allai fod o ddiddordeb i chi. Dylech chi edrych yn reolaidd ar yr wybodaeth a ddangosir.

## **Trefnu i weld aelod o staff**

Dydy'r mwyafrif o aelodau o staff ddim yn cyfyngu'r oriau y mae'n nhw ar gael i weld myfyrwyr i ychydig o oriau yr wythnos, ond dydyn nhw ddim yn gallu bod ar gael drwy'r amser ychwaith. Os ydych chi eisiau siarad ag aelod o staff, mae'r ffordd orau o drefnu apwyntiad ydy anfon e-bost atynt ddiwrnod neu ddau ymlaen llaw yn awgrymu ychydig o amseroedd a fydd yn gyfleus i chi. Bydd aelodau o staff yn nodweddiadol yn hysbysu ar ddrysau eu swyddfeydd nhw yr amseroedd y mae nhw ar gael. Bydd staff yn Nerbynfa Gyfrifiadureg yn gallu dweud wrthyich chi os oes disgwyl i aelod o staff fod i fwrdd am hirach nag un diwrnod. Peidiwch â disgwyl ateb y tu allan i oriau gweithio arferol.

## **Presenoldeb a Chynnydd Academaidd**

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'r holl weithgareddau ar eu hamserlen, yn cynnwys darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a thiwtorialau. Mae'n bosibl hefyd y bydd y Brifysgol neu'r adran academaidd yn pennu gofynion presenoldeb ychwanegol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fframwaith ar gyfer monitro cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr fel rhan o'i chyfrifoldeb i ofalu am fyfyrwyr unigol. Os yw eich presenoldeb a'ch cynnydd yn anfoddhaol, bydd eich adran academaidd yn cysylltu a byddwch yn cael gwahoddiad i egluro'r sefyllfa. Er mai estyn cymorth yw prif amcan y weithdrefn monitro cynnydd academaidd, mae'n bosibl y cymerir camau disgyblu mewn achosion lle nad yw ymdrechion i wella'r sefyllfa wedi arwain at welliant mewn presenoldeb a chynnydd. Mewn achosion o'r fath, gall adrannau argymhell bod myfyrwyr yn cael eu diarddel o'r Brifysgol.

Gweler y manylion llawn yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd: Rhan B - Rheolau a Rheoliadau: Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/academic-progress/>

## Cwrdd â'r staff

Gallwch ganfod gwybodaeth am staff yr adran, yn cynnwys eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ar wefan yr adran: <https://www.aber.ac.uk/cy/cs/staff-profiles/>.

Role	Staff	Email ID
<b>Pennaeth yr Adran</b>	Dr Thomas Jansen	thj10
<b>Rheolwr y Gyfadran</b>	Marina Hughes	mgh5
<b>Cymorth Gweinyddol</b>	Jackie Hedley	qah / cs-office@aber.ac.uk
<b>Derbyn Myfyrwyr</b>	Malcolm Hutchison	mjh25
<b>Cyswllt ag Ysgolion</b>	Dr Wayne Aubrey	waa2
<b>Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu</b>	Dr Bernie Tiddeman	bpt
<b>Ôl-raddedigion Ymchwil</b>	Chuan Lu / Myra Wilson	cul / mxw
<b>Ôl-raddedigion a ddysgir</b>	Neil Mac Parthalain	ncm
<b>Blwyddyn 0</b>	Richard Shipman	rsc
<b>Blwyddyn 1</b>	Chris Loftus	cwl
<b>Blwyddyn 2</b>	Dr Laurence Tyler	lgt
<b>Blwyddyn 3</b>	Neil Taylor	nst
<b>Blwyddyn 4</b>	Neil Taylor	nst
<b>Tiwtor Tramor</b>	Dr Fred Labrosse	ffl
<b>Pwyllgor Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr</b>	Dr David Hunter	dah56
<b>Cyflogadwyedd</b>	Dr Neal Snooke	nns
<b>Cydlynnydd myfyrwyr rhyngwladol/ Erasmus</b>	Dr Fred Labrosse	ffl
<b>Cydlynnydd y Llyfrgell</b>	Prof Jungong Han	juh22

Yn ystod Semester 1 bydd gan staff y gofrestrfa academaidd ddesgiau cymorth ar gyfer myfyrwyr yn Llandinam, Hugh Owen ac Edward Llwyd am 9 a.m. – 5 p.m. ar Ddydd Llun i Ddydd Iau a 9 a.m. – 4.30 p.m. ar Dydd Gwener.

Cewch gefnogaeth yn y lle cyntaf gan eich tiwtor adrannol, yna'ch tiwtor blwyddyn ac yna'r cyfarwyddwr dysgu ac addysgu. Ceir gwybodaeth benodol ar gyfer pob blwyddyn trwy ddilyn y dolenni cyswllt isod:

Blwyddyn Sylfaen: <https://www.aber.ac.uk/~dcswww/Dept/Teaching/Year-0/>

Blwyddyn 1: <https://www.aber.ac.uk/~dcswww/Dept/Teaching/Year-1/>

Blwyddyn 2: <https://www.aber.ac.uk/~dcswww/Dept/Teaching/Year-2/>

Blwyddyn 3: <https://www.aber.ac.uk/~dcswww/Dept/Teaching/Year-3/>

Bwyddyn Olaf Meistri Integredig <https://www.aber.ac.uk/~dcswww/Dept/Teaching/Year-M/>.

Gellir cysylltu â'r cynghorwyr adrannol trwy e-bostio [cs-exam-advice@aber.ac.uk](mailto:cs-exam-advice@aber.ac.uk)

Dylech cyfeirio pob ymholiad arall at [fbrstaff@aber.ac.uk](mailto:fbrstaff@aber.ac.uk)

## Tiwtoriaid Personol

Bydd Tiwtor Personol yn cael ei neilltuo i bob myfyriwr israddedig. Mae gan y Tiwtoriaid Personol ran bwysig i'w chwarae yn y fframwaith cyffredinol sy'n cynnal y myfyrwyr a'u datblygiad personol yn y Brifysgol.

Dylai'r Tiwtor Personol fod yn un o'r mannau cyswllt cyntaf rhwng y myfyrwyr a'r adran academaidd, a dylai fod ar gael i gael sgwrs ar adegau rhesymol, a lle y bo'n briodol dylai gyfeirio'r myfyrwyr i gael cyngor arbenigol.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/student-support/>

Mae disgwyl i fyfyrwyr fynychu cyfarfodydd tiwtorial gyda'u Tiwtoriaid Personol. Bydd eich tiwtor yn trefnu'r rhain ac yn eich atgoffa ohonynt trwy e-bost. Os nad ydych chi'n gallu dod, gadewch i'ch tiwtor wybod ymlaen llaw fel ei bod hi'n bosibl i drefnu cyfarfod arall. Mae hefyd croeso i chi weld eich Tiwtor Personol am gyfarfodydd ychwanegol. Os cewch anawsterau yn y Brifysgol gydag eich astudiaethau neu os ydych chi'n profi problemau personol, peidiwch â chadw'n dawel ond cysylltwch â'ch Tiwtor Personol yn syth er mwyn trefnu cyfarfod. Yn achos fel hwn, peidiwch ag aros i gael eich gwahodd i gyfarfod arferol.

Ar ben y system Tiwtor Personol, mae'r Adran yn rhedeg system Tiwtor Blwyddyn. Os yr ydych yn profi problemau bugeiliol cyffredinol neu anawsterau academaidd a fydd, efallai, yn effeithio ar eich astudiaethau, ac sy'n gallu effeithio ar bobl eraill yn eich blwyddyn, ewch i weld eich Tiwtor Blwyddyn (sydd yn y Rhestr Staff) os gwelwch yn dda. Mae gan y Tiwtor Blwyddyn gyfrifoldeb dros flwyddyn benodol, ac mae e/hi yn:

- darparu cyswllt i fyfyrwyr o flwyddyn benodol i ddelio gyda phroblemau bugeiliol

cyffredinol i gyd ynghyd â phroblemau academaidd cyffredinol,

- dyfarnu ceisiadau gan fyfyrwyr am estyniad ar ddyddiad cau eu gwaith cwrs,
- gweithredu'n briodol ar ôl i ffurflenni adroddiad/meddygol myfyrwyr gael eu rhoi i mewn,
- cynnal cyfweiliadau gyda myfyrwyr i drafod presenoldeb neu ddatblygiad academaidd annigonol,
- cadw cysylltiad â myfyrwyr ar ôl perfformiad gwael yn yr arholiadau.

Os oes gennych anawsterau mae croeso i chi weld y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu neu Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Gyfadran.

Polisi'r adran yw darparu tiwtor personol benywaidd i fyfyrwyr benywaidd pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

### **Tiwtor Myfyrwyr Aeddfed**

Rydym yn croesawu'r brwdfrydedd ac ymroddiad y mae myfyrwyr aeddfed yn eu dwyn gyda nhw i'r Adran, ond rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau arbennig sydd yn eu hwynebu wrth iddynt ddychwelyd i'r byd addysg. Ar wahân i'w tiwtoriaid personol, efallai bydd myfyrwyr aeddfed eisiau siarad â'r Tiwtor Myfyrwyr Aeddfed.

### **Tiwtor Myfyrwyr o Dramor**

Mae'r Tiwtor Myfyrwyr o Dramor ar gael i helpu unrhyw fyfyrwr sydd ddim fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig gydag unrhyw broblemau sy'n berthnasol i'r anawsterau sy'n cyd-fynd â byw ac astudio mewn gwlad ddieithr.

### **Tiwtor Myfyrwyr Cymraeg**

Os yr hoffech gael tiwtorial trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd rhaid i chi gysylltu â Wayne Aubrey ([waa2@aber.ac.uk](mailto:waa2@aber.ac.uk)). Bydd y tiwtor yn cynnal un tiwtorial yn y Gymraeg yr wythnos i fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf nhw. Gall tiwtorialau gael eu haddasu i gyrraedd anghenion y myfyrwyr a gall pynciau technegol gael ei drafod yn ddwyieithog. Yn rhan 2, bydd gan fyfyrwyr diwtor personol sy'n medru'r iaith Gymraeg.

## **Myfyrwyr sy'n mynd ar Flwyddyn Ddiwydiannol neu Flwyddyn yng Nghyflogaeth**

Rydym yn annog myfyrwyr Israddedig yn gryf i dreulio blwyddyn gyda chwmni priodol ac rydym yn helpu myfyrwyr i ddod o hyd i leoliadau addas. Daw'r flwyddyn hon rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn (dysgedig) o'ch cwrs. Mae lleoliadau myfyrwyr yn amrywio o dai meddalwedd i gwmnïoedd peirianeg aml-genedlaethol, sy'n gallu fod wedi'u lleoli dramor mewn rhai o achosion. Mae blwyddyn felly yn orfodol mewn rhai o gynlluniau gradd, mae'n cael ei galw wedyn yn Flwyddyn Brofiad Gwaith. Mae gan y mwyafrif o raddau fersiwn gyda Blwyddyn Brofiad Gwaith a fersiwn sydd heb. Bydd pob un myfyrwyr sydd ar Flwyddyn Brofiad Gwaith mewn cysylltiad ag aelod o staff o'r Adran. Caiff myfyrwyr sydd ar Flwyddyn Brofiad Gwaith ymweliad unwaith neu ddwywaith yn ystod y lleoliad. Rydym yn gwneud ein gorau glas i ymweld â myfyrwyr sydd ar Flwyddyn Ddiwydiannol Ddewisol (a enwir lleoliad YES weithiau).

## **Cynllun Cyfeillion Cyfoed**

Mae'r adran yn rhedeg cynllun cyfeillion cyfoed sy'n neilltuo cyfaill cyfoed i bob myfyriwr newydd ym mlwyddyn 0 a blwyddyn 1. Gwirfoddolwyr o blith myfyrwyr yr ail neu'r drydedd flwyddyn yw'r rhain. Byddant yn cysylltu â'u myfyrwyr penodedig yn ystod yr Wythnos Groesawu ac yna eto trwy e-bost yn ystod y flwyddyn. Rhoddir hyfforddiant iddynt ac maent yn gallu cynghori myfyrwyr newydd os oes ganddynt gwestiynau ynghylch ble i ddod o hyd i wasanaethau a chymorth. Ni fyddant yn gwneud eich gwaith, ond, er enghraifft, gallant ddweud wrthyich ble i ddod o hyd i gyngor ynglŷn â gwaith academaidd. Caiff cynllun yr adran ei redeg gan Chris Loftus. Cysylltwch ag ef os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynllun: [cwl@aber.ac.uk](mailto:cwl@aber.ac.uk).

## **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Sefydliad cenedlaethol yw'r Coleg Cymraeg sy'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion. Mae gan y Coleg ganghennau ymhob un o brifysgolion Cymru lle cynigir darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, lleolir y Gangen o dan adain Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Mae croeso i staff a myfyrwyr y Brifysgol ymuno â'r Gangen er mwyn dod yn aelodau o gymuned y Coleg a chymdeithas Gymraeg fywiog Aberystwyth. Drwy ddod yn aelodau cewch wybodaeth



am y cyfleoedd sydd ar gael i astudio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth, ac mae aelodau'r Gangen yn barod i'ch cynorthwyo gydag unrhyw agwedd o'r ddarpariaeth Gymraeg:

<https://www.aber.ac.uk/cy/ccc/>

## **Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg**

Mae cefnogaeth cynyddol i fyfyrwyr sydd eisiau astudio Cyfrifiadureg trwy'r cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Adran yn rhoi pwyslais ar fagu sgiliau dwyieithog trwy'r defnydd o fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn ein cynlluniau gradd ni. Mae gwella hyder myfyrwyr fel eu bod yn gallu delio â Chyfrifiadureg yn ddwyieithog, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, yw nod y ddarpariaeth hon, oherwydd bod y Gymraeg yn ddymunol yn y gweithle yng Nghymru. Cyflwynir y mwyafrif o'r darlithoedd yn Saesneg, a chynhelir tiwtorialau Cymraeg a phrofiadau cyfrwng Cymraeg eraill i atgyfnerthu'r profiad dysgu. Rydym yn anelu at helpu myfyrwyr dwyieithog i fagu'r hyder i drin â'r pwnc yn y Gymraeg ac yn Saesneg erbyn diwedd y cwrs gradd. Nodir bod 'CC' yn rhagddodi modiwl cyfrwng Cymraeg ac mae 'CS' yn rhagddodi modiwl cyfrwng Saesneg.

Mae gan Dr Wayne Aubrey ddyletswydd benodol i reoli dysgu a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, ond mae llawer o'r staff academiaidd yn medru'r iaith i ryw lefel neu'i gilydd er mwyn cefnogi myfyrwyr dwyieithog, neu fyfyrwyr sydd eisiau dysgu Cymraeg yn ystod eu hamser yma. Mae cefnogaeth gweinyddol a swyddfa ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â nhw am wybodaeth ymhellach.

Cefnogir ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn yr Adran gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/thecoleg/>.

## **Cyflwyno Aseidiadau trwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae gan Brifysgol Aberystwyth bolisi dwyieithrwydd ar gyfer pob asesiad ysgrifenedig, gan gynnwys traethodau gwaith cwrs ac arholiadau. Caiff myfyrwyr, p'un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith asesu'r modiwl dan sylw, ddewis cyflwyno sgrïptiau arholiadau ac aseidiadau gwaith cwrs naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (ac eithrio

asesiadau lle mae asesu iaith yn rhan o ddeilliannau dysgu'r modiwl). Bydd myfyrwyr sy'n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu harholi yn yr iaith honno; mae gan fyfyrwyr sy'n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Saesneg hawl i gael eu hasesu yn Gymraeg.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu polisi ar gyfieithu asesiadau er mwyn sicrhau uniondeb y broses (h.y. na fydd myfyrwyr yn cael mantais nac anfantais annheg o ran marcio gwaith wedi'i gyfieithu. Nid oes disgwyl i fyfyrwyr sydd am gyflwyno sgriptiau arholiadau neu asesiadau gwaith cwrs yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg roi gwybod am hyn i adrannau academaidd ymlaen llaw. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu amser i baratoi papurau arholiad Cymraeg ar gyfer modiwlau cyfrwng Saesneg, gofynnir i fyfyrwyr hysbysu **Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg** erbyn y dyddiadau a gyhoeddir gan y Ganolfan.

## Cyflogadwyedd

### Sgiliau Trosglwyddadwy

Mae astudio am radd Gyfrifiadureg yn eich arfogi chi gydag ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy sy'n hynod o ddeniadol i gyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- (i) sgiliau ymchwil a dadansoddi data;
- (ii) sgiliau datblygedig mathemategol a chyfrifiadurol;
- (iii) sgiliau meddwl yn greadigol a datrys problemau'n effeithlon;
- (iv) sut i dorri problem anodd i lawr i strwythur sy'n cynnwys nifer o broblemau haws a llai;
- (v) sylfaen gadarn yn sgiliau technoleg gwybodaeth;
- (vi) gallu i weithio'n annibynnol;
- (vii) sgiliau trefnu gwaith a rheoli amser, gan gynnwys gallu i gyrraedd dyddiadau cau;
- (viii) sgiliau cyflwyno: gallu i fynegi syniadau a chyfleu gwybodaeth mewn ffordd eglur a strwythuredig, ar ffurf ysgrifenedig a llafar ill dau;

(ix) hunan-gymhelliant ac hunan-ddibyniad;

(x) gweithio mewn tîm, gyda'r gallu i drafod cysyniadau mewn grwpiau, gan oddef syniadau gwahanol i'ch rhai chi a chyrraedd cytundeb.

## **Cyfleoedd i Astudio neu i Weithio Dramor**

Mae'r Brifysgol yn cadw cysylltiad gyda phrifysgolion eraill ar draws y byd. Cewch ddod o hyd i fanylion ar y wefan Astudio Dramor

(<https://www.aber.ac.uk/en/international/study-abroad/sya-ija-programme/>). Fel arfer bydd myfyrwyr sydd â diddordeb yn y cyfle hwn yn cymryd rhan yn eu hail flwyddyn, ond bydd y proses gwneud cais yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r Brifysgol yn dosrannu lleoliadau trwy broses dewisiad. Mae rhaid i fyfyrwyr drafod eu cynllun gyda'r Adran Gyfrifiadureg i wneud yn sicr bod eu sylabws awgrymedig yn cynnwys yr holl ddeunydd sydd eisiau yn eu blwyddyn nesaf o astudio yn Aberystwyth. Mae Dr Frédéric Labrosse ydy'r cyswllt adrannol. ([ffl@aber.ac.uk](mailto:ffl@aber.ac.uk))

Mae bosibl i dreulio blwyddyn ddiwydiannol dramor, gweler gwybodaeth uwchben ar Gynlluniau Blwyddyn Ddiwydiannol os gwelwch yn dda. Nodir, dydyn ni ddim yn gallu gwarantu y byddem yn ymweld â myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r cyfle hwn.

## **Cynlluniau sy'n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs integredig**

Gall cynlluniau sy'n cynnwysg Blwyddyn Ryng-gwrs integredig gynnwys:

(i) Blwyddyn integredig mewn diwydiant, yn cynnwys cyfnod yn gweithio yn y DU neu dramor

(ii) Blwyddyn integredig yn astudio dramor, yn cynnwys cyfnod yn astudio mewn prifysgol dramor.

Yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs, disgwylir i fyfyrwyr fod mewn gwaith neu yn astudio dramor am isafswm o 30 wythnos, ynghyd a chydymffurfio â gofynion eich adran academiaidd wrth gadw mewn cysylltiad â thiworiaid yn ystod y cyfnod hwn. Gall

myfyrwyr sy'n methu gwneud cynnydd academiaidd boddhaol yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs yn derbyn rhybudd a gallant wynebu cael eu diarddel o'r Brifysgol yn unol â'r Rheoliad Academiaidd ynghylch Cynnydd Academiaidd.

Bydd y Flwyddyn Ryng-gwrs yn cael ei marcio yn unol â'r meini prawf asesu a gyhoeddwyd, a gall Bwrdd Arholi'r Senedd fynnu bod myfyrwyr sy'n methu cyflawni'r canlyniadau dysgu a llwyddo i sicrhau marc o farc o 40% neu fwy neu lwyddo i gwblhau'r flwyddyn yn trosglwyddo i gynllun gradd cytras nad yw'n cynnwys y flwyddyn integredig mewn diwydiant neu'r flwyddyn integredig yn astudio dramor. Noder yn ogystal na chaniateir i fyfyrwyr dreulio cyfnod ar leoliadau cyfnewid yn ystod y flwyddyn cyn y Flwyddyn Ryng-gwrs.

Mae gan bron i bob un o'n cynlluniau gradd ni opsiwn o flwyddyn ddiwydiannol integredig. Mae hon yn cynnig cyfle i chi dreulio blwyddyn rhwng eich ail a thrydedd flwyddyn, i weithio mewn cwmni yn y DU neu dramor, yn dal i fod yn fyfyrwr. Mae blwyddyn mewn Diwydiant yn brofiad gwerth chweil a llesol, yn bersonol ac yn broffesiynol, ac mae'n eich helpu chi i sefyll allan o'r dorf mewn marchnad swyddi gystadleuol iawn. Mae'r Adran a Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol (<https://www.aber.ac.uk/cy/careers/>) yn gallu eich helpu chi i ddarganfod eich opsiynau a dod o hyd i leoliad gwaith addas. Gan ei bod yn rhan integredig o'n graddau ni, bydd y flwyddyn ddiwydiannol yn cyfrif tuag at eich gradd, a chaiff ei chynnwys ar eich trawsgrifiad er mwyn i'ch cyflogwyr ei gweld.

Rydym hefyd yn cynnig cynllun gradd sy'n cynnwys blwyddyn dramor rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn (gan gadw eich statws myfyrwr), yn astudio am flwyddyn mewn prifysgol y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, i ehangu eich gorwelion, profi bywyd mewn diwylliant gwahanol, a'ch helpu i sefyll allan mewn torf.

## **Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwmo i ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu, ac mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais mawr ar eu barn am y rhaglenni academiaidd a'r profiad myfyrwr ehangach.

Trwy 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif' bydd staff a myfyrwyr yn cydweithio i wneud Aberystwyth yn brifysgol eithriadol. Gallwch sôn am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda,

Ile y gallwn wella, a beth sy'n bwysig i chi. Gallwch gymryd rhan trwy gysylltu â swyddogion neu gynrychiolwyr academiaidd Undeb y Myfyrwyr, siarad gyda'ch darlithwyr neu staff cymorth, cwblhau'r ffurflen ar-lein 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif', neu gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl. Mae eich adborth yn ein helpu i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr.

**Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif, felly cysylltwch gyda ni i fynegi eich barn.**

## **Holiaduron Gwerthuso Modiwl**

Bob semester, bydd gofyn i bob myfyriwr israddedig gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl ar-lein yn y dosbarth ar gyfer pob modiwl. Mae'r holl adborth o'r Holiaduron yn ddiennw a chaiff ei ddefnyddio er mwyn asesu perfformiad y modiwl a gwneud unrhyw newidiadau posibl. Bydd pob cydlynnydd modiwl yn ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi'r canlyniadau, a byddant yn cael eu darparu i fyfyrwyr trwy drafodaethau wyneb yn wyneb, trwy e-bost ac ar y Bwrdd Du.

Gofynnir i chi ddarparu adborth adeiladol ar eich modiwlau, gan gwblhau'r gwerthusiadau modiwl yn onest, gydag ystyriaeth a pharch i'r staff addysgu a'r staff cymorth ar bob modiwl yn unol â'r Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/>.

Wrth iddynt gyflwyno sylwadau, hysbysir myfyrwyr bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i ddileu neu ailolygu sylwadau os ystyrir eu bod yn torri'r Rheolau a'r Rheoliadau Myfyrwyr.

## **Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif**

Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif yw'r broses sy'n caniatáu i fyfyrwyr roi adborth ar unrhyw adeg am unrhyw agwedd o'u profiad yn y Brifysgol. Mae adborth myfyrwyr yn helpu'r Brifysgol i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr, trwy ddweud wrthym beth rydyn ni'n ei wneud yn dda, beth y gallwn ei wella a beth sy'n fwyaf pwysig i chi.

<https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters>. Unwaith eto, gofynnir i chi roi adborth cadarnhaol gydag ystyriaeth a pharch i staff yn unol â'r Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr.

## **Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr**

Mae'r myfyrwyr yn rhan gwbl ganolog o'r dysgu a'r addysgu ac mae sicrhau llais effeithiol i'r myfyrwyr, gyda threfniadau cynrychioli priodol, yn sylfaenol i systemau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol. Drwy hyn mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i'r myfyrwyr ar sawl haen yn strwythur y Brifysgol er mwyn cyfrannu at ei llwyddiant o ran cynnal a chyfoethogi profiad y myfyrwyr.

Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr yn darparu dull ffurfiol i'r Brifysgol a'r myfyrwyr i drafod materion academaidd sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Maent wedi eu sefydlu yn unol â'r canllawiau cynrychiolaeth myfyrwyr yn adran 6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd: 'Cymorth Myfyrwyr'. Ceir rhagor o wybodaeth yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/student-support/>

Cynhelir etholiadau ar gyfer myfyrwyr a fydd yn gynrychioli eu cyd-fyfyrwyr ar y Pwyllgor Ymgynghorol Myfyrwyr-Staff Cyfrifiadureg ar ddechrau'r flwyddyn academaidd: Caiff staff eu cynrychioli fel arfer gan y Cyfarwyddwr Dysgu, Pennaeth Cefnogaeth, a phob un o'r cydlynwyr blwyddyn. Bydd y SSCC yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, yng nghanol y ddau semester. Bydd y cynrychiolwyr yn hela eich barn cyn y cyfarfodydd hyn, ond gallwch chi gysylltu â nhw unrhyw bryd i godi gofidion. Caiff cofnodion ffurfiol y cyfarfod eu recordio a'i hysbysebu ar hysbysfwrdd yr Adran ac ar y We, a chaiff unrhyw fanylion o weithrediadau a ddigwyddodd yn sgil y cyfarfodydd eu hysbysebu. Cewch dynnu sylw at faterion trwy <https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/tell-us/> ynghyd â defnyddio'r SSCC.

## **Adran C: Cofrestru a'ch Rhaglen**

### **Cofrestru**

Cyn bod modd i chi fod yn fyfyrwr cofrestredig amser llawn neu ran-amser yn y Brifysgol, mae'n rhaid i chi gofrestru ar ddechrau'r sesiwn. Mae gwybodaeth am gofrestru, yr amserlen gofrestru, a rhestr lawn o ddigwyddiadau ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/new-students/freshers/registration/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Cofrestru Israddedig, cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd (e-bost: [ugfstaff@aber.ac.uk](mailto:ugfstaff@aber.ac.uk), ffôn: 01970 628515/622787). Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd os nad ydych yn gallu cofrestru ar amser. **Sylwer: Os na fyddwch yn cwblhau'r cofrestru, ni fyddwch wedi'ch cofrestru fel myfyriwr a bydd eich mynediad i gyfleusterau'r Brifysgol yn cael ei atal.**

## Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrrwyr

**Gwybodaeth bwysig i bobl o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn y DU sydd â Fisa Myfyriwr.**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn 'noddwr' cofrestredig o dan y system Mewnfudo ar Sail Pwyntiau. Mae hynny'n golygu y cawn ddenu a noddi myfyrrwyr rhyngwladol.

Mae'r Swyddfa Gartref, o dan y system honno, yn gosod cyfrifoldebau ar fyfyrwyr ac ar eu Prifysgol i sicrhau bod y rheolau mewnfudo'n cael eu dilyn.

Fel noddwr cofrestredig, mae'r Brifysgol wedi llunio polisiau a gweithdrefnau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau hyn. Bwriedir i'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn hefyd amddiffyn eich statws mewnfudo.

Er mwyn helpu i osgoi anawsterau posib rydym wedi darparu arweiniad ar y cyfrifoldebau hyn ar y wefan hon a hefyd yn adran adnoddau'r dudalen Gwybodaeth am Gydymffurfio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r [compliance@aber.ac.uk](mailto:compliance@aber.ac.uk).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/en/international/visa-immigration-compliance/compliance-information/>

## Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni

Ceir dolenni cyswllt â strwythurau'r holl gynlluniau cyfredol yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/>

Ceir dolenni cyswllt â manylebau'r holl raglenni cyfredol yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/programme-specs/index.html>

Bydd eich cynllun gradd yn cynnwys 'modiwlau craidd' y bydd yn rhaid i chi eu hastudio, ond gall hefyd gynnwys 'modiwlau dewisol'. Noder y gall y dewisiadau ar gyfer modiwlau dewisol fod yn gyfyngedig mewn rhai achosion lle gweithredir trothwy isaf. Golyga hyn na all y Brifysgol sicrhau bod modiwlau dewisol yn cael eu cynnig gyda nifer isel iawn o gofrestrïadau, ac y gallai myfyrwyr orfod dewis eto.

Mae'r Gymdeithas Gyfrifiadur Brydeinig (BCS) yn achredu ein cynlluniau ar ran y Cyngor Peirianeg.

Mae'r BCS yn derbyn ein holl gynlluniau anrhydedd sengl ni i'r lefel briodol o achrediad.

## **Gwybodaeth ynghylch modiwlau**

Uned astudio mewn cynllun gradd yw modiwl, ac mae ganddo ei ganlyniadau dysgu ei hun. Ceir dolenni cyswllt â manylion modiwlau unigol yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/modules/>.

Rhoddir cod saith digid i bob modiwl yn Aberystwyth. Mae'r cod yn rhoi gwybodaeth bwysig i chi am y modiwl, fel y gwelir yn yr enghraifft isod. Mae'r ddwy llythyren gyntaf yn dynodi'r pwnc (CS ar gyfer Cyfrifiadureg); mae'r rhif cyntaf yn dynodi'r lefel: (hynny yw 1,2,3, ac M ar gyfer Meistr); mae'r ddau ddigid olaf yn dynodi gwerth y credydau (10, 20 ac yn y blaen). Mae '00' yn golygu semester cyntaf modiwl tenau a ddysgir dros ddau semester.

## **Amserlen Academaidd**

Wedi i chi gofrestru, gallwch weld eich amserlen ar-lein bersonol drwy eich cofnod myfyriwr: <https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/>.

Os oes gennych gwestiynau am eich amserlen unigol, holwch eich adran academaidd yn y lle cyntaf: <https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/departamental-timetable-officers/>



## Adran D: Asesu ac Adborth

### AberLearn Blackboard / Adnoddau E-Ddysgu

Mae'r Adran yn defnyddio Aberlearn Blackboard a mewnwyd adrannol i ddosbarth gwybodaeth cynnwys dysgu ac addysgu.

Mae tudalen adrannol ar Blackboard yn darparu gwybodaeth berthnasol trwy gydol eich amser yma yn Aberystwyth. Gweler '**Gwybodaeth i Israddedigion Cyfrifiadureg**' o dan yr adran Modiwlau Cyffredinol ar ôl i chi fewngofnodi i Blackboard.

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer AberLearn Blackboard:

<https://blackboard.aber.ac.uk/webapps/login/>

### Adnoddau Cyfrifiadur

Mae'r Adran yn credu bod y cyfleusterau cyfrifiadurol sydd ar gael i fyfyrwyr yn fwy na digonol. Ar ben hynny, mae cyfleusterau Gwasanaeth Gwybodaeth y Brifysgol, sydd wedi'u hintegreiddio'n agos gyda chyfrifiaduron yr Adran, ar gael i'r holl fyfyrwyr. Serch hynny, dyw argaeledd ddim yn ddiderfyn ac bydd achlysuron lle mae anawsterau ddod o hyd i gyfrifiadur. Gofynnir i fyfyrwyr fod yn amyneddgar yn achlysuron felly ac i gydymffurfio gydag unrhyw ofynion sydd gan yr Adran ynglŷn â'r defnydd o adnoddau. Dydy'r Adran Gyfrifiadureg ddim yn gyfrifol am weithrediad cywir unrhyw gyfarpar neu feddalwedd, neu ddiogelwch neu gywirdeb unrhyw raglen ar gadw neu ddata heblaw am ofynion y Ddeddf Amddiffyniad Data.

**Peidiwch ag oedi gydag asesiadau. Dydy problemau gyda chyfrifiaduron ddim yn esgus dros roi gwaith i mewn yn hwyr.**

### Defnydd Cyfrifiaduron Personol

Os oes gennych gyfrifiadur personol, cewch fanteision sylweddol o hyblygrwydd a chyfleustra. Mae rhaid i chi, sut bynnag, fod yn ofalus i beidio â gadael i'r manteision hyn droi'n anfanteision.

Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd yr Adran yn gofyn i chi ddefnyddio UNIX, yn groyw neu'n oblygedig, i gwblhau rhai o'r gwaith ymarferol; cewch anawsterau, efallai, gyda'r gwaith

ymarferol os nad ydy'ch chi'n gyfarwydd â UNIX. Cewch fantais yn eich astudiaethau gan gyfarwyddo eich hun gyda UNIX. Bydd hyn yn ddeniadol i gyflogwyr yn y dyfodol ond, heblaw am hynny, cewch ddealltwriaeth ddyfnach o lawer o'r materion ym mheirianeg feddalwedd.

Gallwch chi ynysu eich hun gan ddefnyddio'ch cyfrifiadur eich hun. Gallwch chi ddysgu llawr gan weithio yng nghwmni myfyrwyr eraill a thrafod eich gwaith gyda nhw. Byddwch chi'n methu'r cyfleoedd hyn trwy weithio'n ormod yn eich ystafell a gweithio ar eich cyfrifiadur ar eich pen eich hun.

O'r diwedd, cynhelir a chefnogir cyfleusterau adrannol gan staff cefnogol. Os yr ydych chi'n dibynnu ar eich peiriant preifat eich hun, mae'n bosibl y bydd eich gwaith yn dioddef o ddiffygion. **Eich cyfrifoldeb chi yw hi i sicrhau copiâu diogel o'ch gwaith pwysig.**

## **Argraffu**

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn darparu argraffyddion y mae myfyrwyr yn gallu eu defnyddio. Er mwyn i chi argraffu'r holl ddeunydd dysgu a gwaith prosiect ac asesiad, bydd angen arnoch chi wario swm sylweddol, yn enwedig yn ystod amseroedd penodol o'r semester. Gwnewch yn sicr eich bod yn gwybod faint o bapur sydd angen ar gyfer pob un asesiad, a pha ansawdd o bapur os oes angen copiâu argraffedig.

Gallwch edrych ar <http://www.aber.ac.uk/cy/is/computers/rooms/> i ddod o hyd i leoliadau argraffwyr.

## **Rheoliad am Ddefnydd o Gyfarpar**

Gofynnir i'r holl fyfyrwyr gadw at y rheolau a osodwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth:

<http://www.aber.ac.uk/en/is/regulations/https://www.aber.ac.uk/cy/is/regulations/>

Ar ben hynny, disgwylir i fyfyrwyr gadw at amodau ymhellach ynglŷn â defnydd yr adnoddau y mae'r Adran yn eu gosod.

Os ydy'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n amhriodol neu'n groes i reolau'r Brifysgol neu'r Adran ym marn Pennaeth yr Adran Gyfrifiadureg, gall y defnyddiwr hwnnw/honno gael ei (g)wahardd rhag ddefnyddio'r adnoddau.

## **Sgiliau Aber/Aber Skills**

Adnodd ar-lein helaeth yw SgiliauAber/AberSkills sydd ar gael i holl fyfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth. Mae'n cynnwys cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth eang o sgiliau astudio. Mae'r cyngor wedi'i drefnu'n adrannau sy'n cysylltu'n agos ag aseiniadau, arholiadau a mathau eraill o asesu. Caiff yr wybodaeth ei darparu ar lefelau cyffredinol a phwnc benodol gan gynnwys cyngor a deunyddiau a grëwyd yn y brifysgol ac mewn mannau eraill. Mae'r cyngor yn cynnwys arweiniad ymarferol ar ysgrifennu academaidd, cyfeiriadu, cyflwyniadau, arholiadau ac amrywiaeth eang o strategaethau dysgu ac adnoddau astudio. Mae modd ei gyrchu o brif dudalen AberLearn Blackboard, neu uniongyrchol drwy'r dolenni hyn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/>

## **Dulliau Asesu**

Caiff modiwlau eu hasesu gan gyfuniad o arholiadau o hyd pendant, arholiadau ymarferol o hyd pendant, profion yn y dosbarth, gwaith cwrs ac adroddiadau. Rhestrir cyfrannau'r elfennau hyn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pob un modiwl yn y Gronfa Fodiwl:

<https://www.aber.ac.uk/en/modules/deptcurrent/?d=Computer+Science>

Dydy dangos amrywiaeth a dyfnder eich dealltwriaeth ddim yr unig nod o asesiad ym Mhrifysgol. Mae hefyd yn ran hanfodol o'r broses ddysgu sydd yn eich helpu chi i ddatblygu a gwella eich sgiliau, megis datrys problemau, cyflawni dadleuon a chyfleu syniadau cymhleth mewn ffordd eglur ac effeithiol. Mae'r sgiliau hyn yn ffurfio rhan bwysig o eich rhaglen radd, ac maent yn angenrheidiol yn y gweithle. Wrth i chi fynd trwy eich rhaglen radd, bydd yr adborth y byddwch yn derbyn oddi wrth eich darlithwyr ar waith sydd wedi'i asesu yn eich helpu chi i wella'r sgiliau hyn.

Mae sawl modiwlau'n ymgorffori taflenni gwaith fel rhan o'r asesiad. Er bod taflen waith unigol yn cynnig ychydig o farciau yn unig i'r modiwlau, mae set ohonynt yn cyfrannu'n sylweddol. Felly, mae'n hynod o bwysig i chi sicrhau bod eich holl daflenni gwaith wedi'u cwblhau yn ystod dosbarthiadau ymarferol er mwyn i chi osgoi colli marciau.

## **Gwaith Cwrs**

Rhaid cyflwyno gwaith cwrs i'r adran yn unol â'r gofynion adrannol unigol a'r dyddiadau cau a gyhoeddwyd ganddi. Bydd gwaith a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael marc sero.

Oni cheir cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb, dylid cyflwyno pob gwaith cwrs yn electronig os yw yn seiliedig ar destun ac ar brosesydd geiriau.

Rhaid i asesiadau gael eu cyflwyno i'r Adran/Cyfadrannau yn ôl gofynion unigol yr adrannau a dyddiadau cau a gyhoeddwyd.

### **Cewch eich asesu'n ffurfiol mewn sawl ffordd yn ystod ac ar ddiwedd pob modiwl.**

Mae ffurf benodol asesiad yn amrywio yn ôl natur y modiwl, ac mae esboniad manwl ar hyn ar <http://www.aber.ac.uk/en/modules/>

Os nad ydych chi'n sicr, gofynnwch i'ch cydlynnyd modiwl, a fydd yn hapus i egluro unrhyw fater sydyn eich poeni.

### **Asesiadau a Phrosiectau**

Mae'r term 'Prosiect' yn cyfeirio at ddarnau mawr o waith, yn enwedig: y prosiect grŵp o'r ail flwyddyn; y prosiectau blwyddyn olaf ar gyfer is-raddedigion; a'r prosiect MSc sy'n debygol o gael ei wneud yn ystod yr haf yn dilyn y ran ddysgedig o'r cynllun.

Mae 'Aseiniadau' yn ddarnau llai o waith.

Mae aseiniadau a phrosiectau yn elfennau pwysig o sawl modiwlau sydd cael eu cynnig gan yr Adran. Maent yn cyfrannu at eich profiad dysgu ac yn darparu rhyw elfen o asesu.

Mae disgrifiad pob modiwl unigol yn dangos i chi pa gyfrannau'n union o'r asesiad yn dod o waith cwrs. Cofiwch, os nad ydych chi'n rhoi'r gwaith i mewn, chewch i ddim marciau ar ei gyfer; bydd hyn yn effeithio'n ddifrifol ar eich marc ar gyfer y modiwl cyfan. Mae'n llawer well i chi roi gwaith anorffen i mewn yn lle peidio â rhoi unrhyw waith i mewn o gwbl.

Rydyn ni'n dehongli methiant i roi gwaith cwrs i mewn, fel methu arholiad, fel datblygiad anfodhaol, yn gyson â'r Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd.

### **Taflenni Gwaith**

Cynigir taflenni gwaith fel ymarferiadau dysgu ac hunan-asesu yn bennaf. Mae'n bosibl iddynt cyfrannu at asesiad modiwl i ryw raddau. (Os dyma'r achos, caiff hwn ei esbonio yn nisgrifiad y modiwl).

Efallai bydd arddangoswyr yn llofnodi taflenni gwaith cyflawn neu bydd dull penodol o'u rhoi nhw i mewn. Mae dulliau felly wedi cael eu dylunio i ddarparu adborth i chi ar eich datblygiad a dealltwriaeth ac i'ch annog chi i gadw ymlaen gyda'r deunydd.

Mae'r Adran yn ymdrechu i gydbwysu gwaith ymarferol sydd wedi'i asesu gyda gwaith ymarferol sydd ddim wedi'i asesu. Mae hynod o bwysig eich bod yn gwerthfawrogi ymarferiadau megis taflenni gwaith, lle mae gennych gyfle i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth o'r pwnc heb fod o dan bwysau a chyfyngiadau asesiad. Dyw'r Adran ddim yn goddef agwedd wael neu'r farn bod gwaith sy'n cael ei asesu'n unig sy'n gofyn am ymdrech.

### **Helpu eich gilydd gydag eich gwaith cwrs**

Rydyn ni'n eich annog chi i helpu eich gilydd yn nosbarthiadau ymarferol (dydy hyn ddim yn cynnwys gwneud gwaith ar ran rhywun arall), ond caiff asesiadau a phrosiectau eu hasesu fel eich gwaith eich hun. Mae'r Adran yn cynnig tiwtorialau, gweithdai, dosbarthiadau ymarferol, a desg gynghorol i'ch helpu chi, ynghyd ag aelodau eraill o staff. Cewch chi ofyn am gymorth heb golli unrhyw farciau. Mae myfyrwyr sy'n gweithio'n galed ac sy'n gofyn am help i wella eu gwaith yn creu argraffiad gwell ar ddarlithwyr na myfyrwyr sy'n geisio i gwblhau'r gwaith heb ddeall.

**Rydyn ni'n annog myfyrwyr i drafod problemau a syniadau, ond mae gwahaniaeth pwysig rhwng myfyrwyr sy'n helpu eu gilydd i ddysgu a myfyrwyr sy'n helpu i gwblhau gwaith dros rywun arall. Os ydych chi'n cydweithredu ar ddarn o waith gyda myfyrwyr eraill, bydd rhaid i bawb sydd wedi cyfrannu ddweud hyn yn glir ar y ddarn o waith sy'n cael ei asesu ac yn esbonio maint y cydweithrediad.**

Yn anffodus, bydd rhai myfyrwyr yn copïo gwaith rhywun arall gan esgus eu gwaith nhw ydy e. Mae'r ymdrechion hyn yn hawdd eu gweld ac bydd yr Adran a'r Brifysgol yn delio'n ddifrifol gydag ymarferion felly (gweler yr adran ar Ymarfer Academaidd Annerbyniol).

## **Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau**

Mae dyddiadau cau gwaith ysgrifenedig yn fater y mae'r Brifysgol yn ei gymryd o ddifrif. Mae'n rhaid i'r myfyrwyr reoli eu hamser mewn modd cyfrifol er mwyn gallu cyflwyno'u gwaith yn brydlon.

Oni cheir cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb, dylid cyflwyno pob gwaith cwrs yn ar lein os yw yn seiliedig ar destun ac ar brosesydd geiriau.

Mae'r adran yn dilyn polisi canolog o ran dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwaith: Bydd angen cyflwyno prosiectau a deunyddiau eraill a asesir erbyn 1yp ar ddyddiau gwaith arferol, fel y cyhoeddir gan gydgysylltydd y modiwl. (Gellir addasu'r amser i gyd-fynd â slotiau dysgu; er enghraifft, fel bod modd asesu gwaith a wnaed yn ystod sesiwn ymarferol).

## Absenoldeb o Arholiadau

Bernir bod ymgeisydd yn absennol am reswm da o arholiad neu asesiad os cyflwynir dogfennaeth i gadarnhau salwch, damwain, profedigaeth agos neu amgylchiadau tosturiol sy'n ymwneud yn agos â'r ymgeisydd. Bydd gan y Bwrdd Arholi perthnasol ddisgresiwn i benderfynu a oedd ymgeisydd yn absennol am reswm da, a hynny ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd. Bydd ymgeisydd a fu'n absennol o unrhyw arholiad yn y Brifysgol heb reswm da neu a fethodd â chyflawni mathau eraill o asesiadau erbyn y dyddiad angenrheidiol yn cael marc sero am yr asesiad dan sylw.

## Ceisiadau am Estyniad

Os oes rheswm anorfod sy'n golygu na ellir cyflwyno gwaith cwrs mewn pryd, mae'n rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais am estyniad trwy gwblhau'r Ffurflen Gais am Estyniad i Ddyddiad Cyflwyno Gwaith Cwrs. Dylid gofyn i'ch adran academiaidd am gopi o'r ffurflen: mae'n rhoi cyfarwyddiadau manwl ar yr amgylchiadau lle y bydd posibilrwydd o ganiatau estyniadau, hyd yr estyniadau, a beth i'w wneud os nad oes modd caniatáu estyniad neu os gwrthodir y cais.

## Amgylchiadau Arbennig

Nod y Brifysgol yw asesu ei myfyrwyr i gyd mewn modd cadarn ond teg, yn unol â'i rheoliadau a'i gweithdrefnau cymeradwy. Er hynny, mae'n dibynnu ar ei myfyrwyr i roi gwybod iddi am unrhyw amgylchiadau arbennig a allai effeithio ar eu perfformiad, fel y gall sicrhau bod ei holl fyfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Dyma rai enghreifftiau o Amgylchiadau Arbennig (dim ond enghreifftiau yw'r rhain, nid rhestr gyflawn mohoni): salwch tymor hir neu dymor byr, problemau ariannol difrifol, problemau difrifol â'ch llety, profedigaeth neu ryw amgylchiadau personol eraill. Os byddwch am roi gwybod i'r Brifysgol am amgylchiadau arbennig, llenwch bob rhan o'r Ffurflen Amgylchiadau Arbennig a'i hanfon at y bobl berthnasol (<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/stafflist/>) ym mhob adran academiaidd lle'r ydych yn cymryd modiwlau, ynghyd â chopïau o'r dystiolaeth. Dylwch nodi bod rhaid i fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol o unrhyw amgylchiadau personol eithriadol a allai effeithio ar eu perfformiad academiaidd cyn gynted ag sy'n bosib ac ym mhob achos cyn i'r Byrddau Arholi gyfarfod. Ceir cyfarwyddyd pellach yn

adran 3.8 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/>

## **Trefniadau Marcio a Chymedroli**

Cynhelir pob arholiad yn unol â gweithdrefn Marcio Anhysbys y Brifysgol a amlinellir yn adran 3.5 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a bydd ymgeiswyr yn parhau yn anhysbys hyd nes y cynhelir Bwrdd Arholi'r adran. Bryd hynny, derbynnir argymhellion Paneli Amgylchiadau Arbennig yr adran er mwyn ystyried amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau arbennig eraill a gyflwynwyd gan y myfyriwr yn unol â Gweithdrefn Amgylchiadau Arbennig y Brifysgol (adran 3.8 yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Gweithredir polisi tebyg ar gyfer gwaith cwrs, gyda rhai eithriadau a gymeradwyir gan Athrofeydd lle nad yw trefniadau anhysbys yn ymarferol neu'n ddymunol.

Disgwyliad Cod Ansawdd y DU yw y bydd gan sefydliadau addysg uwch drefniadau tryloyw a theg ar gyfer marcio a chymedroli. Mae angen i'r Brifysgol fod yn sicr bod prosesau cymedroli mewnol sy'n gadarn, effeithiol a chyson yn cael eu gweithredu ym mhob adran academaidd. Mae manylion y prosesau hyn yn debygol o amrywio yn ôl amgylchiadau penodol a gofynion cyrff proffesiynol, ond dylai pob adran academaidd lynu wrth y diffiniadau a'r gofynion sylfaenol a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd wrth weithredu eu prosesau cymedroli mewnol.



## Meini Prawf Marcio

Darperir meini prawf asesiad gydag aseiniadau unigol. Mae disgrifiad cyffredinol o'r hyn a ddisgwylir ar bob un lefel isod.

1af: 80- 100%	Enghraifft rhagorol o waith sy'n dangos dealltwriaeth ddwfn o'r broblem gyda chyflwyniad cyfatebol. Bydd yr ysgrifen wedi'i chyflwyno'n broffesiynol gyda threfn eglur a strwythur rhesymegol. Bydd cyflwyniad ardderchog gyda modd priodol ac bydd y gramadeg o safon uwch. Bydd yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'r technolegau berthnasol ac yn defnyddio terminoleg briodol yn gywir. Bydd y cyfansoddion gweithredol wedi'u cwblhau i safon uwch ac byddent yn cyrraedd y gofynion ffwythiannol yn hawdd neu'n rhagori'r gofynion.
1af: 70- 79%	Enghraifft rhagorol o waith sy'n dangos dealltwriaeth ddwfn o'r broblem gyda chyflwyniad cyfatebol. Bydd yr ysgrifen wedi'i chyflwyno'n broffesiynol gyda threfn eglur a strwythur rhesymegol. Bydd cyflwyniad ardderchog gyda modd priodol ac bydd y gramadeg o safon uwch. Bydd yn dangos dealltwriaeth ardderchog o'r technolegau berthnasol ac yn defnyddio terminoleg briodol yn gywir. Bydd y cyfansoddion gweithredol wedi'u cwblhau yn dda ac byddent o leiaf yn cyrraedd y gofynion ffwythiannol.
2(i): 60- 69%	Darn da o waith sy'n dangos dealltwriaeth dda o'r broblem gyda chyflwyniad cyfatebol. Bydd yr ysgrifen wedi'i chyflwyno'n dda gyda threfn eglur a strwythur rhesymegol. Bydd cyflwyniad priodol gyda modd priodol ac bydd y gramadeg o safon dda. Bydd yn dangos dealltwriaeth dda o'r technolegau berthnasol ac yn defnyddio terminoleg briodol yn eithaf cywir. Bydd y cyfansoddion gweithredol wedi'u cwblhau ac byddent fel arfer yn cyrraedd y gofynion ffwythiannol ym mhob agwedd.

<p>2(ii): 50-59%</p>	<p>Darn o waith sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem yn y rhan fwyaf o bethau. Bydd y cyfansoddion ysgrifenedig yn dangos yr ardaloedd hynny sydd wedi'u deall yn iawn ynghyd â'r ardaloedd sydd ddim wedi'u deall mor dda. Bydd y dogfennau wedi'u strwythuro mewn ffordd rhesymol sy'n eu gwneud iddynt yn hawdd eu darllen, ond gallant fod yn ddiffygiol o ran strwythur, eglurhad ac ansawdd gramadegol. Bydd yn dangos lefel ddigonol o ddealltwriaeth o dechnolegau berthnasol ac yn defnyddio terminoleg briodol gan amlaf. Bydd y cyfansoddion gweithredol yn anghyflawn o ran agweddau bychain yn ôl bob tebyg, ac bydd y gwaith efallai yn gadael rhai o'r darnau o waith mwy datblygedig allan.</p>
<p>3<sup>ydd</sup>: 40-49%</p>	<p>Darn o waith sy'n dangos rhai o ddealltwriaeth o'r broblem. Bydd cyfansoddion ysgrifenedig yn dangos pa ddatblygiad sydd wedi'i wneud, ac bydd ymdrechion i ddangos pa ardaloedd sydd ddim wedi'u deall. Gall rhai o ddogfennau ddangos diffyg strwythur, eglurder ac ansawdd gramadegol. Gall elfennau o waith fod wedi'u gadael allan yn y dogfennau. Diffyg o ddealltwriaeth o'r technolegau berthnasol ynghyd â diffyg o ddefnydd o derminoleg briodol. Bydd cyfansoddion gweithredol yn anghyflawn yn ôl bob tebyg ac bydd rhai agweddau o'r broblem graidd wedi'u gadael allan. Dim ymdrech digonol i fynd i'r afael â'r adrannau mwy datblygedig.</p>
<p>Wedi methu: 30-39%</p>	<p>Darn o waith sydd ddim yn dangos dealltwriaeth go iawn o'r broblem neu sy'n cynnwys ymateb amhriodol, annigonol neu anghyflawn. Bydd cyfansoddion ysgrifenedig yn methu â disgrifio'r gwaith yn gywir neu'n gyflawn ac bydd ychydig brin o fanylion ynglŷn â pha rannau o'r broblem sydd wedi'u deall a pha sydd ddim. Bydd y dogfennau'n dangos diffyg strwythur, eglurder ac ansawdd gramadegol. Methiant i ddangos dealltwriaeth o'r dechnolegau berthnasol a diffyg o derminoleg briodol neu gamddefnydd o'r derminoleg. Bydd cyfansoddion gweithredol yn anghyflawn, yn gyfeiliornis neu wedi'u rhwystro gan anallu i ddefnyddio'r technolegau gofynnol.</p>

Wedi methu: 20-29%	Gwaith sy'n dangos ychydig brin o ddealltwriaeth o'r broblem ac wedi'i gyflwyno mewn modd amhriodol, annigonol neu'n anghyflawn. Bydd cyflwyniad a chynnwys y cyfansoddion ysgrifenedig yn wael. Bydd y gwaith fel arfer yn methu â disgrifio'r broblem, y gwaith a wnaed, neu'r lefel o ddealltwriaeth. Bydd y gwaith hefyd yn diffyg strwythur, eglurder, ac yn aml bydd safon ramadeg wael ganddo. Bydd methiant yn aml i ddangos dealltwriaeth o'r technolegau sydd angen i ddatrys y broblem neu i ddefnyddio'r derminoleg gywir. Yn ôl bob tebyg bydd cyfansoddion gweithredu'n absennol, yn anghyflawn, yn gyfeiliornis neu'n dangos anallu i ddefnyddio'r technolegau gofynnol.
Wedi methu: 0-19%	Ychydig brin o waith o ran naill ai cyfansoddion gweithredu neu ddogfennu, neu'n ddarn o waith sydd yn dangos anallu i ddefnyddio'r technolegau gofynnol a/neu anallu i gyflwyno'r gwaith yn gywir. Cyfansoddion gweithredu yn absennol, yn gyfeiliornis neu brin wedi'u dechrau.

Gellir ddod o hyd i feini prawf asesiad i fathau gwahanol o aseiniadau ochr yn ochr â'r llawlyfr ar y fewnwyd adrannol ar <http://impacs-inter.dcs.aber.ac.uk/en/cs-undergraduate/official-information/student-handbooks>.

## Adborth

Gofynion y Brifysgol yw bod adborth ar gyfer gwaith cwrs yn cael ei ddarparu o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cyflwyno. Os oes oedi am resymau eithriadol na ellir eu hosgoi, byddwch yn cael eich hysbysu ac yn derbyn amserlen ddiwygiedig ar gyfer dychwelyd yr asesiad o dan sylw.

Mae'r Brifysgol yn arfer yr Egwyddorion Adborth Effeithiol isod o ran gwaith y myfyrwr:

(i) Dylai'r adborth fod yn dryloyw, er mwyn i'r myfyrwr allu ei ddeall a'i gysylltu â'r meini prawf asesu.

(ii) Dylai'r adborth helpu'r myfyrwyr i weld beth yw eu cryfderau a ble y mae angen iddynt wella.

(iii) Dylai'r adborth fod yn gymesur ac yn briodol i'r math o asesiad, yr amseru a maint y dosbarth.

(iv) Dylai fod gan y myfyrwyr wybodaeth glir a hygyrch am y mathau o asesiadau a natur ac amseriad yr adborth a gânt ar gyfer pob math o asesiad.

(v) Mae gan y myfyrwyr hawl i ofyn am eglurhad ar y marciau, i'w helpu i ddeall yr hyn a wnaethant yn dda a'r hyn na wnaethant cystal, a sut y gallant wella.

Bydd staff fel arfer yn marcio gwaith ac yn rhoi adborth arno o fewn tair wythnos ar ôl dyddiad cau. Sut bynnag, bydd unrhyw farc y mae myfyriwr yn derbyn yn ystod y cyfnod hwn yn farc dros dro, a allai cael ei ailystyried gan y Bwrdd Arholiad.

Bydd staff yr Adran Gyfrifiadureg yn rhoi adborth mewn sawl ffordd. Bydden nhw'n gwneud hyn gan amlaf trwy gynnig marciau gyda sylwadau ar waith sydd wedi'i roi i mewn. Mae'r sylwadau hyn yn dangos pa waith sy'n cywir ynghyd â chynnig awgrymiadau i wella'r ymdrechion annilys. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn ystyried yr adborth hwn: mae dysgu gwers ar ôl camgymeriad yn sgil gwerthfawr am wella. Bydd staff yn gwneud pob ymdrech i ddychwelyd gwaith gydag adborth cyn gynted â phosib; bydden nhw'n gwneud hyn cyn pen tair wythnos ar ôl y dyddiad cau fel arfer (oni bai bod amgylchiadau eithriadol). Caiff rhai themâu cyffredin o aseiniadau eu trafod mewn rhannau o ddarlithoedd. Mewn tiwtorialau/dosbarthiadau problem/gweithdai/sesiynau ymarferol, mae pwyslais ar geisio datrys problemau ar eich pen eich hun fel myfyriwr; roddir staff adborth, ac bydd staff a myfyrwyr yn cyrraedd datrysiad cywir yn y diwedd. O'r diwedd, bydd Tiwtoriaid Personol eisiau trafod perfformiad mewn arholiadau yn ystod cyfarfodydd; bydd myfyrwyr yn derbyn adborth fanwl ar eu gwaith.

Caiff adborth ysgrifenedig ei hanfon i fyfyrwyr trwy e-bost fel arfer neu drwy TurnItIn ar Blackboard.

## Arholwyr Allanol

Mae Arholwyr Allanol yn allweddol o ran helpu i gynnal safonau academiaidd a goruchwylio'r broses asesu. Mae'r Brifysgol yn penodi Arholwyr Allanol ar gyfer pob darpariaeth sy'n arwain at ddyfarniad gan Brifysgol Aberystwyth.

Mae Arholwyr Allanol yn sicrhau bod asesiadau wedi eu cynnal mewn modd teg a chyson a bod y safonau'n cyd-fynd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU a/neu safonau cyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r Arholwyr Allanol yn cyflawni nifer o dasgau a amlinellir yn adran 4 y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, Arholi Allanol:

(<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/ext-exam/>). Mae'r rhain yn cynnwys cymeradwyo asesiadau Arholwyr Mewnol, edrych ar samplau o ddeunydd asesu, edrych ar samplau o waith wedi'i asesu a chymeradwyo argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Arholi. Mae Arholwyr Allanol hefyd yn darparu adroddiadau ysgrifenedig ar y broses asesu ac ar safonau cyflawniad y myfyrwyr ac fe'u cyhoeddir ar fodiwlau'r adrannau ar y Bwrdd Du AberLearn. Mae'r adroddiadau'r Arholwyr Allanol yn cael eu hystyried gan y Brifysgol, ac mae'r Bwrdd Academiaidd yn gyfrifol am oruchwylio'r adroddiadau a'r drefn arholwyr allanol yn ei chyfanrwydd.

Cyhoeddir enwau Arholwyr Allanol yn yr adran 'proffiliau staff' ar dudalennau gwe'r adrannau academiaidd. Cyhoeddir Adroddiadau Blynyddol yr Arholwyr Allanol, ynghyd ag ymatebion yr adrannau, ar y Bwrdd Du, ac y maent ar gael i fyfyrwyr.

Mae'n rhaid i Arholwyr Allanol fod yn ddi-duedd ar bob achlysur, ac nid ydynt yn gwneud addasiadau dewisol i farciau myfyrwyr unigol. Ni ddylai myfyrwyr gysylltu ag Arholwyr Allanol. Dylid gwneud cais am eglurhad o farc amodol mewn aseiniad trwy drefniadau adborth arferol yr adran academiaidd, neu trwy weithdrefnau apelio'r Brifysgol os yw marc terfynol y modiwl wedi ei gadarnhau.

## Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol

Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol yw cyflawni unrhyw weithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef/iddi hi ei hun neu i rywun arall. Bydd y Rheoliad hwn yn berthnasol, pan ddeellir bod myfyriwr wedi cyflawni Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol, beth bynnag fo bwriad y myfyriwr a chanlyniad y weithred, a phan fo'r

myfyriwr yn gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unigolyn arall/unigolion eraill. Gellir cynnwys unrhyw weithredoedd yn y diffiniad hwn, boed hwy'n digwydd yn ystod neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, cyflwyno tystiolaeth feddygol neu fel arall i Fyrddau Arholi, neu unrhyw fath ar asesiad a wneir wrth ymgeisio am gymhwyster Prifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y dosbarthiadau canlynol o Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol. Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr, a gellir cynnwys achosion eraill o fewn i ddiffiniad cyffredinol Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol.

- **Llên-ladrad:** Diffinnir llên-ladrad fel defnyddio gwaith rhywun arall a dweud mai eich gwaith eich hun ydyw, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol. Mae enghreifftiau o lôn-ladrad yn cynnwys:
  - Dyfynnu heb ddefnyddio dyfynodau
  - Copïo gwaith rhywun arall
  - Cyfieithu gwaith rhywun arall heb ei gydnabod
  - Aralleirio neu addasu gwaith rhywun arall heb ei gydnabod yn briodol
  - Defnyddio deunydd wedi'i lawrlwytho oddi ar y rhyngwrdd heb ei gydnabod
  - Defnyddio deunydd a gafwyd o gronfeydd traethodau neu asiantaethau tebyg.
- **Cydgynllwynio:** Mae cydgynllwynio yn digwydd os yw gwaith a wnaed gan neu gydag eraill yn cael ei gyflwyno fel gwaith un person yn unig. Os yw gwaith un neu fwy o bobl yn cael ei gyflwyno yn enw eraill ac os yw awdur(on) y gwaith gwreiddiol yn gwybod am hyn, gellir ystyried bod yr holl cydgynllwynwyr wedi cyflawni Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol.
- **Ffugio tystiolaeth neu ddata:** Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata o'r fath mewn gwaith a asesir yn cynnwys gwneud honiadau ffug ynghylch cynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweiliadau neu fathau eraill ar gasglu a dadansoddi data. Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata hefyd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ynghylch amgylchiadau arbennig i Fyrddau Arholi neu Baneli Apêl sy'n ffugio neu wedi'i ffugio.

- **Ymddygiad Academaidd Annerbyniol dan amodau arholiad ffurfiol:**  
cyflwyno i ystafell arholi a/neu gyfleusterau cysylltiedig unrhyw fath o ddeunydd anawdurdodedig, megis llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd, gwybodaeth a gafwyd trwy gyfrwng unrhyw ddyfais electronig, neu unrhyw ffynhonnell wybodaeth anawdurdodedig, heb ystyried a yw'r deunydd yma yn berthnasol i'r pwnc dan sylw ai peidio.
- Ailgylchu data neu destun: Ailgylchu data neu destun mewn mwy nag un asesiad, pan fo'r Athrofa neu'r Adran wedi peidio â chaniatáu hynny yn bendant.

Mae'r Rheoliad llawn ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ar gael yn adran 3.6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Ymddygiad Academaidd:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/>. Gall canlyniadau penderfyniad bod Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fod yn ddifrifol, a gallai hyn effeithio gallu myfyriwr i symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf neu gwblhau gradd. Bydd cosbau yn cael eu pennu ar sail system bwyntiau: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/uap-points>

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch arfer academaidd da a chyfeirnoddi ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/>. Os nad ydych yn siŵr, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch adran academaidd i gael rhagor o arweiniad.

Fel yr allwch chi weld, mae'n bwysig eich bod yn cyfeirio ar eich gwaith yn glir os ydych chi wedi cynnwys gwaith rhai eraill. O ran Gyfrifiadureg, gall hyn gynnwys aildefnyddio dyluniadau a rhaglenni ynghyd â chopïo neu ddyfynnu testun. Gwnewch yn sicr eich bod yn deall sut i gydnabod gwaith rhai eraill yn eich holl waith. Dydy anwybodaeth ddim yn esgus dros ymarfer academaidd annerbyniol.

Nod y camau syml canlynol ydy eich helpu chi i osgoi cyflawni ymarfer annerbyniol megis llên-ladrad:

- atodwch restr o gyfeirnodau i'ch gwaith sy'n dangos yr holl adnoddau yr ydych wedi'u defnyddio, gan gynnwys rhai electronig;

- rhowch ddyfynodau o gwmpas dyfyniadau uniongyrchol i gyd, a chyfeiriwch at y ffynhonnell benodol (gan gynnwys rhifau tudalennau, neu'r côd URL a'r dyddiad y ddaethoch o hyd iddi os yw'r ffynhonnell ar y We) naill ai mewn troednodyn neu mewn cromfachau yn dilyn y dyfyniad;
- defnyddiwch ychydig brin o ddyfyniadau a gwnewch yn sicr bod y mwyafrif o'r gwaith yn eich geiriau eich hun;
- hyd yn oed os nad ydych chi'n defnyddio dyfyniadau uniongyrchol, dylech chi gydnabod syniadau pwysig rhai eraill;
- cofiwch bod eich ymdrech chi sy'n ffurfio sail yr adborth. Pa bynnag ffynonellau yr ydych wedi'u defnyddio, dylai'r strwythur a'r cyflwyniad fod eich gwaith eich hun. Bydd ymgorffori gwaith rhywun arall gydag eich gwaith chi yn amlwg oherwydd o'r steil gwahanol.

Cofiwch i ddefnyddio eich synnwyr cyffredin wrth i chi wneud eich gwaith. Er enghraifft, dyw hi ddim yn angenrheidiol i gynnwys cyfeirnodau ar gyfer datganiadau safonol sy'n hysbys i'r cyhoedd. Os ydych chi'n amau, gwnewch yn sicr eich bod yn dyfynnu a chyfeirio at ddeunydd yn briodol er mwyn osgoi drwgdybiaeth eich bod wedi gwneud ymdrech i dwyllo, a gofynnwch am gyngor os nad ydych chi'n sicr.

## **Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau**

### **Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau**

Defnyddir Confensiynau Arholiadau i bennu a gaiff myfyrwyr symud ymlaen rhwng blynyddoedd astudio ar gyfer gwahanol fathau o ddyfarniadau ac i bennu dosbarth y radd ar ddiwedd cynllun gradd. Dylid darllen y Confensiynau ar y cyd â'r Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd. Gellir dod o hyd iddynt yn adran 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/>



Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch asesiad cynlluniau astudio trwy gwrs, megis amgylchiadau arbennig, arholiadau a'r prosesau marcio.

Gall y Brifysgol ddyfarnu un o'r dyfarniadau ymadael canlynol os yw myfyrwr heb lwyddo i gael y credydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu gradd Baglor gydag anrhydedd. Dyfernir y cymwysterau ymadael hyn heb ddsbarth.

- Y Radd Gyffredin (BA / BSc heb anrhydedd)
- Diploma Addysg Uwch (Dip HE)
- Tystysgrif Addysg Uwch (Cert HE)

Ceir gwybodaeth ychwanegol am ddyfarniad Graddau Cyffredin yn adran 4.6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

## **Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith**

### **Ailsefyll**

Os ydych yn methu modiwl ac angen ailsefyll, bydd eich adran academaidd yn rhoi gwybod pa elfennau y bydd yn rhaid i chi eu hailsefyll. Bydd angen hefyd i chi gofrestru er mwyn ailsefyll. Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â chofrestru i ailsefyll ar wefan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/>.

Ceir manylion ynglŷn â ffurff asesiadau ailsefyll yn y bas data modiwlau: <http://www.aber.ac.uk/cy/modules/>. Fel arfer, bydd ailsefyll yn golygu ailwneud yr asesiadau (e.e. traethawd, arholiad) a fethwyd ar yr ymgais gyntaf.

Mae dyddiadau cyfnod ailsefyll yr haf ym mis Awst ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/resits/summer-resit-assessments/>

**Pan fydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau, bydd yr adran yn anfon cyngor cyffredinol atoch ynglŷn â'r hyn i'w wneud os ydych wedi methu modiwl. Os nad**

ydych yn sicr beth i'w wneud er mwyn ail-wneud asesiad, neu symud i gam nesaf eich gradd, dylech gysylltu â: [cs-exam-advice@aber.ac.uk](mailto:cs-exam-advice@aber.ac.uk)

## Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs

Diffinnir apêl academaidd fel 'cais i adolygu penderfyniad corff academaidd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â chynnydd myfyrwyr, asesiadau a dyfarniadau.'

Rhaid i'r apêl fod yn seiliedig ar un neu ragor o'r rhesymau isod er mwyn cael ei hystyried a rhaid darparu tystiolaeth ategol nad oedd ar gael i'w chyflwyno i'r Bwrdd Arholi perthnasol:

- Amgylchiadau esgusodol eithriadol a gafodd effaith andwyol ar berfformiad academaidd y myfyriwr. Lle gallai'r myfyriwr fod wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Arholi am yr amgylchiadau eithriadol cyn iddo gwrdd, ni cheir cyflwyno'r amgylchiadau hynny'n sail dros apelio yn ddiweddarach.
- Diffygion neu afreolaidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd yr asesiadau, neu'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu'r cyngor yn eu cylch, lle gellir cyflwyno achos i ddangos y gallai diffygion, afreolaidd-dra neu gyngor o'r fath fod wedi cael effaith andwyol ar berfformiad y myfyriwr.
- Tystiolaeth o ragfarn, neu o duedd, neu o asesu annigonol gan un neu ragor o'r arholwyr.

Ni chaiff yr apêl ei hystyried oni all y myfyriwr ddarparu rhesymau da pam na roddwyd gwybod i'r Brifysgol yn gynt am y rhesymau dros apelio a/neu pam na chafodd y Bwrdd Arholi perthnasol wybod amdanynt.

Ni ystyrir apeliadau sy'n amau barn academaidd.

Cyn gwneud apêl, rhaid i chi ddarllen, yn ei chyfanrwydd, y Drefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs, sydd ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/appeals/> .

Holwch y Gofrestrfa Academaidd ([caostaff@aber.ac.uk](mailto:caostaff@aber.ac.uk)) neu Gynghorydd Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr ([undeb.cyngor@aber.ac.uk](mailto:undeb.cyngor@aber.ac.uk)) am gyngor ynglŷn â'r weithdrefn hon.

## Y Weithdrefn Gwyno i Fyfirwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i sicrhau profiad addysgol o ansawdd uchel i'w holl fyfirwyr, a hynny gyda chefnogaeth gwasanaethau a chyfleusterau academaidd, gweinyddol a lles priodol. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd myfirwyr yn anfodlon ar y gwasanaethau neu'r cyfleusterau dysgu ac addysgu a ddarperir. Cred Prifysgol Aberystwyth y dylai myfirwyr fod â hawl i gael system effeithiol ar gyfer delio â chŵynion ac y dylent deimlo y gallant wneud cwyn, yn sicr eu meddyliau y bydd ymchwiliad teg i'r gŵyn honno.

Mae Trefn Gwyno Myfirwyr y Brifysgol ar gael am:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/complaints/>

## Adran F: Cymorth Myfirwyr a Gwasanaethau Lles

### Canolfan Croesawu Myfirwyr

Mae'r Ganolfan Croesawu Myfirwyr yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian; y Gwasanaeth Lles a'r Gwasanaeth Hygyrchedd a dyma eich siop un stop ar gyfer cyngor a gwybodaeth ar bob math o gymorth.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/our-services/>

### Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth ac atgyfeirio ar amrywiaeth eang o faterion. Os nad ydych chi'n siŵr ble i fynd am gyngor neu gymorth cysylltwch â ni. Does dim problem yn rhy fawr nac yn rhy fach. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, heb feirniadaeth, ac am ddim. Mae gennym wasanaeth galw heibio yn ystod yr wythnos (manylion ar y wefan) neu gallwch drefnu apwyntiad gydag Ymgynghorydd Myfirwyr drwy gysylltu â'r Ddesg Croesawu Myfirwyr.

Mae'r ymgynghorwyr myfirwyr wedi'u hachredu gyda Chymdeithas Genedlaethol yr Ymgynghorwyr Arian Myfirwyr (NASMA) ac maen nhw'n gallu cynnig cyngor

proffesiynol ar reoli arian neu unrhyw broblemau gyda Chyllid Myfyrwyr. Hefyd gallan nhw gynnig cyngor ac arweiniad ar unrhyw ymholiadau'n ymwneud â llety, cynnydd academaidd, gweithdrefnau'r Brifysgol neu gymhwyster ar gyfer cronfeydd caledi.

## **Y Gwasanaeth Hygyrchedd**

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a'r rheini sydd ag anawsterau dysgu penodol, gan eu hystyried ar yr un sail academaidd ag ymgeiswyr eraill. Rydym ni'n eich cynghori i ystyried, cyn ymgeisio, y gofynion ar gyfer eich dewis o gwrs, gan nodi unrhyw elfennau a allai beri anhawster penodol. Rydym ni'n argymhell eich bod yn ymweld â champws y Brifysgol a'ch dewis adran i holi am y cymorth a allai fod ar gael, gweld y cyfleusterau a thrafod anghenion penodol.

Mae ein Hymgynghorwyr Hygyrchedd yn hapus i helpu cyn i chi ymgeisio. Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch adran a'n hymgynghorwyr cyn gynted â phosib gan y gallai gymryd peth amser i drefnu addasiadau a chymorth. Rydym ni hefyd yn argymhell eich bod yn cysylltu â'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio a chael cyngor ar grantiau, fel y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA). Gall ein hymgynghorwyr drefnu gweithwyr cymorth, gan gynnwys er enghraifft cymorth sgiliau astudio un i un a mentora. Gall trefniadau arholi unigol fod ar gael i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol fel dyslecsia a dyspracsia.

Mae ein Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal a gall drefnu cymorth gan fentoriaid cymheiriaid i fyfyrwyr sy'n ei chael yn heriol i ymgartrefu yn y Brifysgol.

## **Gwasanaethau Lles Myfyrwyr**

Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o faterion iechyd, gan gynnwys lles emosiynol a rhywiol, ac mae'n cynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl a darpariaeth cwnsela. Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn ychwanegol i'ch meddyg teulu, ac nid yn lle'r gwasanaeth hwnnw. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu lleol a'r gwasanaethau ysbyty i sicrhau eich bod

yn cael gofal da a sylw pan fo angen, mae'n bwysig eich bod yn cofrestru gyda phractis meddyg teulu lleol pan fyddwch yn cyrraedd Aberystwyth.

Yn ogystal â'r gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, mae cymorth hefyd ar gael trwy'r canlynol:

## **Cymorth Dysgu i Fyfirwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg**

Mae Cymorth Dysgu i Fyfirwyr a'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau israddedig, cyrsiau sgiliau ysgrifennu a gwybodaeth israddedig ac uwchraddedig am ddim ac ymgynghoriadau unigol ar gyfer cymorth ysgrifennu ac iaith. Mae'r rhain ar gael i'r holl fyfirwyr yn y brifysgol sy'n astudio cyrsiau gradd. Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/> a <https://www.aber.ac.uk/en/international-english/>

## **Y Swyddfa Ryngwladol**

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau i fyfirwyr rhyngwladol o drefnu digwyddiadau croesawu i gyngor arbenigol ar fewnfudo. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau rhyngwladol <https://www.aber.ac.uk/en/international/>.

## **Cyngor ar Fisas a Mewnfudo**

Gall ein Hymgyngorydd Myfyrwyr Rhyngwladol helpu gyda phob math o geisiadau am fisas astudio, fisas Schengen i'r rheini sy'n teithio i Ewrop yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion mewnfudo eraill. Cysylltwch â [immigrationadvice@aber.ac.uk](mailto:immigrationadvice@aber.ac.uk)

## **Gwibdeithiau'r Swyddfa Ryngwladol**

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn trefnu rhaglen gymdeithasol sy'n caniatáu i fyfirwyr fwynhau gwibdeithiau a digwyddiadau drwy'r flwyddyn. Trefnir gwibdeithiau diwrnod i fannau ar draws Cymru ar y penwythnos, fel Caerdydd, Tyddewi, Portmeirion a Chastell Harlech. Rydym ni hefyd yn cynnig gwibdeithiau prynhawn byr i fannau prydferth sy'n agos i Aberystwyth, ac yn y gorffennol wedi cynnwys ymweliadau ag Aberaeron, Nant

Yr Arian a Chwm Elan. Mae'r teithiau i gyd yn gost isel ac yn gyfle i'n myfyrwyr fwynhau ymweld â llefydd y tu allan i Aberystwyth a chwrdd â ffrindiau newydd. Mae croeso i'r holl fyfyrwyr ar y teithiau, o Brydain a rhyngwladol, ac maen nhw'n boblogaidd iawn felly argymhellir eich bod yn archebu'n gynnar i osgoi siom.

## **Wythnos Un Byd**

Digwyddiad blynyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Wythnos Un Byd sy'n dathlu diwylliant amrywiol ein prifysgol. Mae dathliadau blaenorol wedi cynnwys Noswaith Gala Un Byd, gyda dawnsio a cherddoriaeth draddodiadol, trafodaethau gwleidyddol, prynhawniau ffilm rhyngwladol a Ffair y Byd gyda samplau bwyd a diod o wledydd y myfyrwyr, a bwydlenni traddodiadol a weinir ym mwyty'r Brifysgol, Tamed Da. Digwyddiad dan arweiniad y myfyrwyr yw hwn mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr ac mae angen eich cyfraniad chi! Cynhelir cyfarfodydd i drefnu Wythnos Un Byd o fis Hydref ymlaen felly dewch i ymuno a gwneud yn siŵr fod pawb yn cael rhannu eich gwlad a'ch diwylliant.

## **Darpariaeth Halal**

Mae ein sefydliadau arlwyo'n cynnig detholiad o fwydydd poeth ac oer sy'n addas ar gyfer diet Halal. Mae'r holl fwyd wedi'i farcio er hwylustod.

## **Mannau aml-ffydd ac ystafell weddïo**

Mae man ffydd ar gael i weddïo ar Gampws Penglais, yn y Ganolfan Ffydd yng Nghanolfan y Celfyddydau.

## **Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr**

Yng Ngwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr ceir cyngor cyfrinachol, annibynnol am ddim i holl fyfyrwyr Aberystwyth. Mae Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gallu eich helpu gydag amrywiaeth o faterion gan arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth ar brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Gall Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd weithredu fel eiriolwr annibynnol ar eich rhan mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau.

Gallwch alw heibio i siarad ag Ymgynghorydd - holwch yn nerbynfa Undeb y Myfyrwyr neu ewch at y swyddfeydd cefn ar y llawr daear neu gallwch gysylltu â ni ar-lein neu drwy ebost: [undeb.cyngor@aber.ac.uk](mailto:undeb.cyngor@aber.ac.uk) . Edrychwch ar <https://www.umaber.co.uk/cyngor/> am ragor o fanylion.

## **Cymorth Llety**

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau yn eich ystafell neu fflat, e.e. rydych wedi cloi'ch hun allan, nid ydych yn teimlo'n dda, mae angen atgyweirio rhywbeth, neu fod gennych broblem â chymydog, mae gennym staff ar gael 24 awr y dydd i'ch helpu. Mae'r Tîm Preswylfeydd yn gyfrifol am yr holl Breswylfeydd, gallwch gysylltu hefyd â'n porthorion cyfeillgar y tu allan i'r oriau swyddfa. Am fwy o wybodaeth, gweler:

<https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/help/>

## **Cynorthwyr Preswyl**

Mae'ch Cynorthwydd Preswyl yn gyd-fyfyrwyr sydd yma i roi cymorth ac arweiniad, gan anelu at greu amgylchedd byw a dysgu cadarnhaol ac i feithrin ymdeimlad o gymuned ar draws y Brifysgol. Gall hyn gynnwys cyngor ar ddatrys dadleuon fflatiau, ar sut i guro straen arholiadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ardal, neu ble i ddod o hyd i'r cwpan gorau o goffi yn Aber! Os nad ydynt yn gallu helpu, byddant yn eich cyfeirio at rywun sy'n gallu bod o gymorth.

Trwy gydol y flwyddyn, bydd eich tîm Cynorthwyr Preswyl yn trefnu digwyddiadau preswyl bach yn y manau cymunedol o amgylch eich llety, yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd ac efallai roi cynnig ag rywbeth newydd. Byddant yn galw i mewn i'ch fflat neu dŷ yn rheolaidd i weld eich bod yn iawn, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd o amgylch y campws ac yn eich llety, a holi a oes gennych unrhyw bryderon lle y gallant helpu.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/res-support/>

## **Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol**

### **Israddedigion**

Mae gwybodaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr israddedig ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/> ac mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth ynghylch Arholiadau ac Asesiadau
- Gwybodaeth ynghylch Ailsefyll a Ffioedd Ailsefyll
- Gwybodaeth ynghylch Cofrestru
- Cymorth Ariannol
- Rheolau a Rheoliadau
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd

**Pob hwyl i chi gyda'ch astudiaethau!**